**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

## 1. Amcanion polisi

- *Pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu am effaith?*

Mae'r asesiad hwn yn asesu'r penderfyniad i roi'r gorau i weithredu Cynllun y Nod Barcud y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar ei ffurf bresennol.

<u>Cefndir</u>

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cefnogi arferion da o ran cyfranogiad drwy roi canllawiau ar sut dylai sefydliadau ymgysylltu â phlant. Cyfeirir at y Safonau yn llawer o bolisïau Llywodraeth Cymru; cânt eu hymgorffori yn *Y Ffordd Gywir* (fframwaith y Comisiynydd Plant ar gyfer ymgorffori dull hawliau plant ar waith); a'u defnyddio mewn cynlluniau dyfarnu eraill megis y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid a chynlluniau sydd wedi'u datblygu'n lleol.

Mae Cynllun y Nod Barcud (y Cynllun) y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn rhoi marc ansawdd gwirfoddol i sefydliadau sy'n dymuno tynnu sylw at eu harferion da o ran cyfranogiad. Mae gan Gynllun y Nod Barcud ddwy ran:

(i) Siarter ar gyfer sefydliadau sydd eisiau mabwysiadu'r Safonau i ddangos eu hymrwymiad;
(ii) a'r Nod Barcud a ddyfernir i sefydliadau sydd wedi gwreiddio'r Safonau yn llwyddiannus yn eu harferion. Mae hyn yn golygu asesiad llawn o feini prawf y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a chymeradwyaeth gan dîm o Arolygwyr Ifanc cenedlaethol.

Cafodd y Cynllun ei roi ar saib yn ystod Covid ac wrth gynnal adolygiad o'i ddefnydd gan y sector cyhoeddus.

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn asesu effaith y penderfyniad a ddylid rhoi'r gorau i'r Cynllun ar ei ffurf bresennol; mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn parhau i fodoli fel egwyddorion arfer da a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru.

<u>Effaith ragweledig ar hawliau plant</u>

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi'r hawl i blant gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Gallai rhoi'r gorau i'r Cynllun o bosibl gael effaith anuniongyrchol ar wireddu hawliau Erthygl 12, 13, 15, 17 a 42 ar lefel leol. Fodd bynnag, mae Cynllun y Nod Barcud yn wirfoddol, a gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Safonau heb fod yn gysylltiedig ag ef.

Mae'r Cynllun presennol yn rhoi'r cyfle i grŵp bach o aelodau Cymru Ifanc weithredu fel Arolygwyr Ifanc Cenedlaethol ar gyfer y Cynllun. Gallai'r cynnig hwn effeithio o bosibl ar eu hawliau o dan Erthyglau 12, 13 a 15. Fodd bynnag, gan fod Cynllun y

Nod Barcud wedi cael ei roi ar saib ers peth amser, nid oes unrhyw Arolygwyr Ifanc Cenedlaethol mewn swydd ar hyn o bryd.

Byddai unrhyw effeithiau andwyol yn cael eu lliniaru gan y canlynol:

- Ni fyddai rhoi'r gorau i'r Cynllun yn effeithio ar allu'r sector cyhoeddus i weithredu'r Safonau nac ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r modd y mae'n eu hyrwyddo fel egwyddorion arfer da i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Rydym yn ariannu *Plant yng Nghymru* i hyrwyddo'r Safonau hyn drwy ei brif waith.
- Mae cynlluniau marciau ansawdd eraill (e.e., y Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid) yn ymgorffori'r Safonau ar lefel leol.
- Ein cyllid grant i *Plant yng Nghymru* ar gyfer gweithgarwch sy'n hwyluso ac yn cefnogi cyfranogiad plant yn uniongyrchol ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys Cymru Ifanc a'r Sgwrs Fawr.
- Cymorth parhaus ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfranogiad ar lefel leol, drwy gyllid i Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan. Mae swyddogion hefyd wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith yn ddiweddar i lunio canllawiau ar ysgrifennu strategaethau cyfranogiad ac wedi datblygu ffilm fer i gyflwyno hawliau plant a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector cyhoeddus ehangach.

Rhagwelir, felly, mai bach iawn fydd effaith rhoi'r gorau i'r Cynllun ar ei ffurf bresennol ar hawliau plant.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- *Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio'ch polisi penodol? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.*

Daeth proses adolygu'r Cynllun i ben yn gynharach eleni wrth gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu ym mis Mawrth 2025.

Canolbwyntiodd y cam cyntaf ar y rhai yn y sector cyhoeddus a fanteisiodd ar Gynllun y Nod Barcud. Aeth *Plant yng Nghymru* ati i siarad â Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan (AWPWN), Arolygwyr Ifanc Cenedlaethol, gwasanaethau awdurdodau lleol sydd wedi derbyn y Nod Barcud, ac awdurdodau lleol sy'n hwyluso timau lleol o arolygwyr ifanc.

Canfuwyd mai prin yw'r sefydliadau yn y sector cyhoeddus sydd wedi manteisio ar y Cynllun. Dangosodd data gan *Plant yng Nghymru* fod deunaw o sefydliadau'r sector cyhoeddus, rhwng 2019 a 2023, wedi llofnodi'r Siarter, a saith wedi derbyn y Nod Barcud. Er mai bwriad y Cynllun yw cefnogi sefydliadau i symud ymlaen o'r Siarter i'r Cynllun, yn ymarferol dim ond un sefydliad wnaeth hynny. Ymhlith yr awdurdodau lleol, sydd â dyletswydd statudol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc (Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010) ac y disgwylir iddynt fabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, roedd un wedi llofnodi'r Siarter ac un wedi derbyn y Nod Barcud ar lefel sefydliadol. Dangosodd y data hefyd rywfaint o

ddefnydd o’r Cynllun gan wasanaethau unigol o fewn awdurdodau lleol, yn enwedig gwasanaethau ieuenctid, gyda saith wedi llofnodi’r Siarter a thri wedi derbyn y Nod Barcud. Dyma’r gwasanaethau a fyddai eisoes yn fwyaf hyddysg yn y Safonau ac yn eu defnyddio’n rheolaidd.

Roedd ail gam yr adolygiad yn ystyried y rhwystrau a wynebwyd gan sefydliadau’r sector cyhoeddus wrth wneud cais am y Cynllun a thystiolaeth o effeithiolrwydd cynlluniau marciau ansawdd wrth ymgorffori safonau cenedlaethol ar lefel leol.

Er bod cefnogaeth i’r Cynllun presennol ymysg ymarferwyr, nododd yr adolygiad gyfyngiadau yn y dystiolaeth a gasglwyd o’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Am fod cyfranwyr yn bennaf o wasanaethau sy’n seiliedig ar blant, profwyd anawsterau wrth ddal safbwyntiau’r sector cyhoeddus ehangach. Nodwyd bod safbwyntiau’r rhanddeiliaid yn debygol o gyflwyno graddau o ragfarn optimistiaeth, gan fod sefydliadau’r sector cyhoeddus sydd â llai o ymwybyddiaeth neu’n ymwneud llai â’r Safonau yn cael eu tangynrychioli yn y data. Lle rhoddwyd barn sefydliadau cyfan, nododd rhai oblygiadau gwaharddol o ran adnoddau o ymgymryd â phroses y Nod Barcud fel rhwystr a bod eraill o’r farn bod y Nod Barcud yn ddiangen gan eu bod wedi buddsoddi mewn cynlluniau eraill.

Canfuwyd y gall cynlluniau marciau ansawdd, pan fyddant yn cael eu cynllunio’n briodol gyda’r adnoddau priodol, fod yn effeithiol wrth ymgorffori safonau cenedlaethol yn y ddarpariaeth leol. Nodwyd nodweddion cynlluniau llwyddiannus y byddai angen eu cymhwyso i’r Cynllun yng Nghymru er mwyn iddo fod yn effeithiol. Mae modelau llwyddiannus yn cyfuno hunanasesu â chraffu allanol, gwobrwyo cynnydd a rhannu arferion da, wrth gael eu hymgorffori mewn swyddogaethau craidd, yn cael eu cefnogi gan arweinyddiaeth, a’u hatgyfnerthu trwy hyfforddiant, hyrwyddwyr mewnol, ac alinio â pholisi ehangach neu ddyletswyddau statudol. Mae’r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd seilwaith a chymorth, gan gynnwys canllawiau, hyfforddiant, a rhwydweithiau a thrwy gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol mewn prosesau dylunio ac atebolrwydd.

Yn gyffredinol, canfu’r adolygiad werth yn y cysyniad o gynlluniau dyfarnu ac achredu ond daeth i’r casgliad bod angen buddsoddiad pellach, datblygu, tystiolaeth gryfach o effaith, a gwell strwythurau cymorth i’r Cynllun presennol er mwyn iddo fod yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir bod y Cynllun wedi sbarduno defnydd ehangach neu fwy cyson o’r Safonau ar draws sefydliadau’r sector cyhoeddus. Yn hytrach, mae’r canfyddiadau’n dangos bod y Cynllun wedi atgyfnerthu a ffurfioli’r arferion da presennol mewn nifer fach o wasanaethau/sefydliadau sydd eisoes yn cymryd rhan mewn gwaith cyfranogi.

Mae’r diffyg defnydd o’r Cynllun ymhlith y sector cyhoeddus a’r rhwystrau parhaus i ymgymryd ag ef, a nodwyd gan uwch arweinwyr, wedi ein harwain i ddod i’r casgliad nad yw’r Cynllun presennol yn hyfyw. Ar ben hynny, mae’r Cynllun ond yn darparu achrediad ar gyfer un agwedd ar ddull hawliau plant – mae hyn yn anghyson â dull mwy cynhwysfawr y Comisiynydd Plant yn *Y Ffordd Gywir* o bum egwyddor, sef gwreiddio, cydraddoldeb, grymuso, cyfranogiad ac atebolrwydd.

Pe bai cynllun marc ansawdd yn cael ei ailgyflwyno, byddai angen ei ystyried yng nghyd-destun unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol a dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus.

- *Gan ddefnyddio'r ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.*

Gallai rhoi'r gorau i'r Cynllun gael effaith wahaniaethol bosibl ar lefel leol, gyda phlant mewn ardaloedd sydd eisoes wedi ennill y Nod Barcud yn sylwi ar lai o bwyslais ar gyfranogiad. Un ffordd o liniaru hyn fyddai sicrhau bod y modd y cyfathrebir ar unrhyw benderfyniad i roi'r gorau i'r Cynllun yn pwysleisio bod statws y Safonau a'r ymrwymiad iddynt yn ddigyfnewid. Bydd *Plant yng Nghymru yn* parhau i hyrwyddo'r Safonau drwy ei brif waith a ariennir, ochr yn ochr â dyluniad gweledol newydd y Safonau a chymorth parhaus i weithwyr cyfranogiad Awdurdodau Lleol.

- *Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio'ch polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eglurwch pam.*

Fe wnaeth *Plant yng Nghymru* siarad â'r Arolygwyr Ifanc Cenedlaethol a oedd yn y swydd ar y pryd. Dywedodd yr Arolygwyr Ifanc fod y dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi ceisiadau'r Nod Barcud yn aml yn hirfaith a heb ffocws, gan ei gwneud yn anodd iddynt asesu. Roedd awydd i symleiddio ac egluro'r prosesau cyfredol.

Er y gwnaed ymdrechion yn yr ail gam i siarad ag Arolygwyr Ifanc blaenorol, neu'r rhai a fyddai'n gyfarwydd â'r Cynllun, nid oedd hyn yn bosibl. Penderfynwyd na fyddai ymgysylltu ag aelodaeth gyffredinol Cymru Ifanc neu blant a phobl ifanc ehangach yn ystyrlon, o ystyried cwmpas a phwrpas penodol yr ymchwil ar ymgymryd â'r Cynllun a'i roi ar waith.

Fodd bynnag, roedd yr adolygiad yn ymwneud yn uniongyrchol â sefydliadau plant cynrychioliadol, gan gynnwys:

- Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Plant, *Plant yng Nghymru*, Unicef a'r Arsyllfa Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Abertawe.
- Aelodau o Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan (AWPWN) y daw ei aelodaeth o wahanol awdurdodau lleol.
- *Plant yng Nghymru*, corff cynrychioliadol ar gyfer trydydd sector plant yng Nghymru a gweithredwyr y Cynllun presennol.

Cymysg oedd ymateb y rhanddeiliaid hyn. Yn ystod y cam cyntaf, canolbwyntiodd CRAG ar weithredu'r Cynllun a sut y gellid mynd i'r afael â rhwystrau i weithredu, cofnodi a monitro. Barn CRAG oedd bod dull hawliau plant yn cael ei gyflawni orau drwy dargedu *Y Ffordd Gywir* at arweinwyr y sector cyhoeddus, i gefnogi eu dyletswyddau o ran cyfranogiad. Tynnodd *Plant yng Nghymru* sylw at wahaniaethau mewn trefniadaeth ac adnoddau ar draws Awdurdodau Lleol ac awydd i symleiddio ac egluro'r broses. Roedd yn argymell model gwell, gyda dyfarniad 'Cenedlaethol' i gynnwys cyrff heblaw Awdurdodau Lleol.

3. **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- *Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae'ch polisi yn debygol o gael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?*

Aseswyd mai bach iawn fyddai effaith rhoi'r gorau i'r Cynllun ar ei ffurf bresennol ar blant a phobl ifanc gan y bydd cymeradwyo a hyrwyddo'r Safonau fel egwyddorion arfer da i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn parhau.

Ymhlith y camau lliniaru mae:

- Caiff *Plant yng Nghymru* ei ariannu i barhau i hyrwyddo'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol drwy ei brif waith.

- Mae yna gynlluniau eraill sy'n ymgorffori'r Safonau a byddai'n parhau i wasanaethu'r swyddogaeth hon. Mae hyn yn cynnwys dull *Y Ffordd Gywir* y Comisiynydd Plant, y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid, a chynlluniau sydd wedi'u datblygu'n lleol.

- Ein cyllid grant i *Blant yng Nghymru ar* gyfer gweithgarwch sy'n hwyluso ac yn cefnogi cyfranogiad plant yn uniongyrchol ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys Cymru Ifanc a'r Sgwrs Fawr.

- Cymorth parhaus ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfranogiad ar lefel leol, drwy gyllid i Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan. Mae swyddogion hefyd wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith yn ddiweddar i lunio canllawiau ar ysgrifennu strategaethau cyfranogiad ac wedi datblygu ffilm fer i gyflwyno hawliau plant a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector cyhoeddus ehangach.

- *Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.*

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol** | **Yn gwella (X)** | **Heriau (X)** | **Eglurhad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12 (hawl i blant gael dweud eu dweud ar faterion sy'n effeithio arnynt) | X | X | Mae rhoi'r gorau i'r Cynllun yn dileu mecanwaith posibl ar gyfer hyrwyddo hawl plant i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i sefydliadau ddangos ymrwymiad i gryfhau'r modd y mae pobl yn cyfranogi.<br><br>Yn yr un modd, bydd nifer fach o ddarpar Arolygwyr Ifanc Cenedlaethol yn colli'r cyfle i fod yn |

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol** | **Yn gwella (X)** | **Heriau (X)** | **Eglurhad** |
|---|---|---|---|
| | | | rhan o'r broses achredu a dwyn sefydliadau i gyfrif.<br><br>Fodd bynnag, mae'r cyn lleied sy'n manteisio ar y Cynllun a'r safbwyntiau cymysg ar ei werth a pharhad y Safonau a'r mesurau presennol i gefnogi hawliau Erthygl 12 yn golygu mai bach fydd yr effaith. Bydd *Plant yng Nghymru* yn parhau i hyrwyddo'r Safonau drwy ei brif waith a ariennir, ochr yn ochr â dyluniad gweledol newydd y Safonau a chymorth wedi'i dargedu i weithwyr cyfranogiad awdurdodau lleol – e.e., fe wnaeth swyddogion weithio gyda Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan yn ddiweddar i lunio canllawiau ar ysgrifennu strategaethau cyfranogiad a datblygu ffilm fer i gyflwyno hawliau plant a'r adnoddau sydd ar gael. |
| Erthygl 13 (hawl i gael a rhannu gwybodaeth) ac 17 (Hawl i wybodaeth ddibynadwy) | X | X | Mae rhoi'r gorau i'r Cynllun yn dileu mecanwaith posibl ar gyfer hyrwyddo manteision sefydliadau sy'n rhoi fforymau ar waith i blant gael a rhannu gwybodaeth er mwyn hwyluso eu hawliau Erthygl 12. Fodd bynnag, mae sefydliadau ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru yn darparu'r cyfleoedd hyn heb ymwneud â'r Cynllun (e.e., Cynghorau a Fforymau Ieuenctid Awdurdodau Lleol; Paneli Ymgynghorol Byrddau Iechyd; Cynghorau Ysgol; Llysgenhadon y Comisiynydd Plant, Cymru Ifanc, Senedd Ieuenctid Cymru).<br><br>Mae'r cyn lleied sy'n manteisio ar y Cynllun a'r safbwyntiau cymysg ar ei werth a pharhad y Safonau a'r mesurau presennol i gefnogi |

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| | | | hawliau Erthygl 13 yn golygu mai bach fydd yr effaith.<br><br>Bydd unrhyw newidiadau i'r Cynllun yn cael eu cyfleu i aelodau Cymru Ifanc mewn modd hygyrch.<br><br>Cafodd fersiwn o'r adolygiad i blant a phobl ifanc ei chynhyrchu a'i chyhoeddi yma. |
| Erthygl 15 (hawl i gyfarfod gyda'i gilydd ac ymuno â grwpiau a sefydliadau) | | X | Mae rhoi'r gorau i'r Cynllun yn dileu mecanwaith posibl ar gyfer hyrwyddo manteision cyrff cyhoeddus yn rhoi fforymau lle gallai plant gwrdd.<br><br>Fodd bynnag, mae'r cyn lleied sy'n manteisio ar y Cynllun a'r safbwyntiau cymysg ar ei werth a pharhad y Safonau yn golygu mai bach fydd yr effaith.<br><br>Yn flaenorol, byddai Arolygwyr Ifanc yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn nigwyddiadau preswyl Cymru Ifanc. Mae dod â'r Cynllun i ben yn risg bosibl i hawl plant i gwrdd ac ymuno â grwpiau ar gyfer y grŵp bach hwn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i roi cyllid i Cymru Ifanc sy'n eu cefnogi i gwrdd yn rheolaidd ac yn lliniaru'r risg hon. |
| Erthyglau 28 a 29 | X | X | Roedd model yr Arolygwyr Ifanc yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau a hyder newydd.<br><br>Fodd bynnag, roedd y model hwn o fudd i grŵp bach o blant a phobl ifanc. Roedd yr adolygiad annibynnol hefyd wedi nodi pryderon ynghylch pa mor gynrychioliadol oedd y grŵp hwn.<br><br>Bydd ailddyrannu'r adnoddau pwrpasol hyn i gefnogi |

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| | | | gweithgarwch ehangach Cymru Ifanc yn rhoi cyfleoedd i fwy o blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd. Mae gweithgareddau'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu pobl ifanc sy'n cymryd rhan fel arweinwyr a'u grymuso i wneud cyfraniadau gwybodus at ddatblygu polisïau. Mae pob gwirfoddolwr yn gallu cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi ac achredu ehangach drwy gydol y flwyddyn. |
| Erthygl 42 (dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn) | X | X | Mae rhoi'r gorau i'r Cynllun yn dileu mecanwaith posibl i sefydliadau'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o elfennau cyfranogiad y CCUHP.<br><br>Fodd bynnag, mae cynlluniau eraill mewn bodolaeth fel dull *Y Ffordd Gywir* y Comisiynydd Plant, y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid, a chynlluniau sydd wedi'u datblygu'n lleol sy'n cefnogi'r swyddogaeth hon.<br><br>Neges allweddol gan randdeiliaid oedd dyblygu a diffyg integreiddio ar draws gwahanol systemau arolygu. Byddai dileu Cynllun y Nod Barcud yn mynd peth o'r ffordd i ddatrys y broblem hon o ddyblygu.<br><br>Ar ben hynny, ni fyddai rhoi'r gorau i'r Cynllun yn effeithio ar gymeradwyo a hyrwyddo'r Safonau fel egwyddorion arfer da i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Bydd *Plant yng Nghymru yn* parhau i hyrwyddo'r Safonau drwy ei brif waith a ariennir, ochr yn ochr â dyluniad gweledol newydd y Safonau a chymorth i Awdurdodau Lleol fodloni eu dyletswyddau o ran cyfranogiad. |

- *Ystyriwch a yw unrhyw Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.*

Ddim yn berthnasol

## 4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

Bydd yr asesiad hwn yn cyd-fynd â'r Cyngor Gweinidogol.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, yn dilyn penderfyniad gweinidogol a hysbysiad o'r penderfyniad hwn i randdeiliaid perthnasol.

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- *Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut byddwch yn eu hysbysu am y canlyniad?*

Cafodd fersiwn o'r adolygiad i blant a phobl ifanc ei chynhyrchu a'i chyhoeddi yma.

Nid yw cyfathrebu'n uniongyrchol ag Arolygwyr Ifanc yn bosibl am fod unrhyw Arolygwyr Ifanc yn y gorffennol bellach wedi symud ymlaen o Gymru Ifanc ers saib y Cynllun yn 2023. Fodd bynnag, bydd unrhyw benderfyniad ar ddyfodol y Cynllun yn cael ei gyfleu i aelodaeth ehangach Cymru Ifanc mewn modd hygyrch.

## 7. Monitro ac Adolygu

- *Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r asesiad hwn.*

Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu a'i ystyried yng nghyd-destun unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol a dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus.

- *Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y caff ei weithredu?*